Gweinyddir gan

Cyngor Abertawe
Swansea Council

**CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (LGPS)**
**Trosglwyddo buddion i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe**

Os ydych chi'n aelod gweithredol ac mae gennych fuddion pensiwn blaenorol, efallai yr hoffech chi eu trosglwyddo i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe. Mae'n rhaid trosglwyddo yn ystod 12 mis cyntaf eich aelodaeth LGPS yn eich cyflogaeth bresennol; caiff cais a dderbynnir y tu allan i'r cyfnod amser hwn ei drin fel cais trosglwyddo hwyr. Er mwyn ymchwilio i drosglwyddo buddion blaenorol o du allan i'r LGPS, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn.

| | |
|---|---|
| **1** | Darllenwch yr wybodaeth hon a chwblhewch y ffurflen drosglwyddo sydd ar y cefn. Anfonwch Rhan A a Rhan B at eich darparwr pensiwn **blaenorol.** |

⇩

| | |
|---|---|
| **2** | Bydd eich darparwr pensiwn blaenorol yn anfon manylion atoch yn uniongyrchol. Anfonwch yr **holl** ddogfennau gan gynnwys unrhyw ffurflenni rhyddhau i'r Is-adran Pensiynau - mae'r cyfeiriad ar dudalen 3. |

⇩

| | |
|---|---|
| **3** | Yn seiliedig ar y gwerth trosglwyddo a ddarparwyd, bydd yr Is-adran Pensiynau'n rhoi amcangyfrif i chi o werth y pensiwn enilledig ychwanegol y bydd y trosglwyddo'n ei brynu. Ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r trosglwyddo heb eich caniatâd. |

⇩

| | |
|---|---|
| **4** | Os hoffech fwrw ymlaen â'r trosglwyddo, anfonwch yr holl ddogfennau y gofynnwyd amdanynt ar restr wirio'r amcangyfrif i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe. |

⇩

| | |
|---|---|
| **5** | Pan fyddwn yn derbyn arian gan eich darparwr blaenorol byddwn yn anfon hysbysiad o swm y pensiwn a ddyfarnwyd. |

**Pa drosglwyddiadau y dylwn i ddefnyddio'r ffurflenni hyn ar eu cyfer?**

Dylech ddefnyddio'r ffurflenni hyn er mwyn ymchwilio i drosglwyddo hawliau pensiwn o'r tu allan i'r LGPS, ond nid ar gyfer Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus megis Pensiynau Athrawon, y GIG, y Gwasanaeth Sifil, y Gwasanaeth Tân a'r Heddlu. Cysylltwch â'r Is-adran Pensiynau os oes gennych ddiddordeb mewn trosglwyddo pensiwn sector cyhoeddus.

**Beth am aelodaeth LGPS flaenorol?**

Peidiwch â defnyddio'r ffurflenni hyn ar gyfer aelodaeth LGPS flaenorol. Dywedwch wrth yr Is-adran Pensiynau os oes gennych aelodaeth LGPS mewn cronfa arall.

**A all hawliau pensiwn blaenorol gael eu trosglwyddo bob tro?**

Yn y rhan fwyaf o achosion, gellir cymeradwyo trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol hyd at 12 mis cyn eich Oed Pensiwn Arferol.

Nid yw rheoliadau LGPS yn ein caniatáu i ni dderbyn

- Trosglwyddiad pensiwn sy'n cael ei dynnu i lawr
- Trosglwyddiad rhannol o bensiwn
- Trosglwyddiadau sy'n cynnwys credydau pensiwn a ddyfarnwyd dan orchmynion rhannu pensiwn.

**Beth yw'r cyfyngiadau amser?**

Mae gennych 12 mis o ymuno â Chronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe er mwyn dewis i drosglwyddo'ch buddion pensiwn blaenorol oni bai fod eich cyflogwr yn caniatáu yn wahanol yn unol â'i bolisi. Gall y broses drosglwyddo fod yn un hir, a gall gymryd sawl mis felly argymhellwn eich bod yn dechrau ymchwilio i drosglwyddo cyn gynted â phosib o fewn y cyfnod 12 mis

**Beth sy'n rhaid i mi ei wneud?**

Bydd angen i chi ofyn i'ch darparwr pensiwn blaenorol am werth trosglwyddo a ffurflenni rhyddhau perthnasol ar gyfer pob cynllun blaenorol yr ydych chi am drosglwyddo buddion ohono. I wneud pethau'n haws i chi, cwblhewch **Ran A** o'r ffurflen yn y llyfryn hwn a'i hanfon gyda **Rhan B** at eich darparwr pensiwn blaenorol.

**Beth ydw i'n ei wneud gyda'r manylion trosglwyddo?**

Anfonwch yr holl wybodaeth am drosglwyddo gan eich darparwr pensiwn blaenorol i'r Is-adran Pensiynau cyn gynted ag y byddwch yn ei derbyn; **ni fyddwn yn bwrw ymlaen** â'r broses drosglwyddo heb eich caniatâd.

Mae rhai darparwyr pensiwn blaenorol yn nodi cyfnod gwerth trosglwyddo gwarantedig; gallai'r cyfnod hwn fod yn 3 mis ac mae gwerthoedd pensiynau personol yn newid yn ddyddiol, felly mae'n rhaid i chi anfon gwerth trosglwyddo **diweddar** atom (llai na mis oed). Os yw'r gwerth trosglwyddo wedi dod i ben, neu os nad yw'n ddiweddar, efallai y byddwn yn gofyn i chi am werth newydd. Gall eich darparwr blaenorol godi tâl arnoch am ragor o ddyfynbrisiau. Peidiwch ag anfon datganiad buddion blynyddol atom - nid yw'n cynnwys manylion trosglwyddo digonol.

Ein cyfeiriad yw: Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
Canolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir gan eich darparwr pensiwn blaenorol, byddwn yn anfon amcangyfrif o'r hyn bydd y gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod yn ei brynu o ran y pensiwn enilledig ychwanegol yng Nghronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Yn seiliedig ar yr wybodaeth rydym yn ei rhoi i chi, mae'n rhaid i chi benderfynu a ydych am fwrw ymlaen â'r trosglwyddiad. Gan nad ydym yn ymgynghorwyr ariannol cymwysedig, ni allwn roi cyngor ariannol i chi felly efallai yr hoffech gael cyngor gan Ymgynghorydd Ariannol annibynnol sy'n gymwysedig mewn materion pensiwn.

**Beth os ydw i am barhau gyda'r broses drosglwyddo?**

Darllenwch y rhestr wirio a gynhwysir yn eich amcangyfrif a chwblhewch y ffurflenni perthnasol a'u dychwelyd gyda'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

**Pan fydd y broses drosglwyddo wedi'i chwblhau**

Byddwn yn ysgrifennu atoch pan fyddwn yn derbyn taliad gan eich darparwr pensiwn blaenorol, yn cadarnhau bod y broses drosglwyddo wedi'i chwblhau a bydd yn cynnwys hysbysiad ffurfiol o'r swm pensiwn a dalwyd i'ch cyfrif pensiwn LGPS.

**Beth os nad oes gen i gyfeiriad fy narparwr blaenorol?**

Ysgrifennwch i'r Gwasanaeth Olrhain Pensiynau:

The Pension Tracing Service
The Pension Service
Tyneview Park, Whitley Road
Newcastle upon Tyne
NE98 1BA

gan ddarparu cymaint o wybodaeth â phosib am y cynllun neu'r darparwr blaenorol.

**Transfer form – Part A**

**Please send this to your previous pension provider with Part B**

**Dear Pension Provider**

I am considering transferring my pension rights with you into the City & County of Swansea Pension Fund, part of the Local Government Pension Scheme (LGPS).

I have given my details below. Please provide the information requested overleaf and enclose any discharge forms that I will need if I wish the transfer to proceed. Please send these to my address with a copy of this form so I can pass them to my new pension scheme.

**1. Personal details**

Full Name ..... Title .....

Previous surname (if any) .....

Address .....

..... Postcode .....

National Insurance number

Date of birth

**Previous pension scheme**

Name of previous scheme .....

Name of scheme administrators .....

Membership/policy number .....

Dates of membership From: ..... To: .....

I consent to the disclosure of any additional information about my pension to the City & County of Swansea Pension Fund.

Please do not send payment. I will contact you again if I want the transfer to proceed.

Signature ..... Date .....

Data Protection Act 2018: The City & County of Swansea Pension Fund will only use your data to process your pension rights

**Transfer form - Part B**

## To the Pension Provider

If you can offer a transfer value, please send the information requested below to the member with any discharge forms. Please make sure the information is dated. If the transfer value includes pre 1997 protected rights, you must include GMP details. We cannot accept any benefits arising from a pension sharing order.

**If you are an occupational scheme:**

- Service dates on which benefit entitlement is based
- Contracted out employment dates, if different
- Weekly GMP to the leaving date and type of revaluation used, split pre and post 88
- Your PSTR number
- Transfer value, excluding any AVC fund
- AVC fund value, if any
- Post 1997 protected rights
- Value of current benefits
- Details of any pension sharing or earmarking orders

**If you are a personal pension arrangement:**

- Basis of your HMRC approval
- Your PSTR number
- Transfer value
- Details of any pension sharing or earmarking orders

**About the Local Government Pension Scheme (LGPS)**

The LGPS is a statutory scheme and became a registered pension scheme on 6 April 2006 in accordance with paragraph (1) of Schedule 36 to the Finance Act 2004.

| | |
|---|---|
| **PSTR number** | PSTR00329102RF |
| **ECON** | E3900002R |
| **SCON** | S2700187H |
| **GMP revaluation rate** | Section 148 orders |
| Scheme administrator | City & County of Swansea Pension Fund, Civic Centre, Oystermouth Road, Swansea SA1 3SN<br>Phone: 01792 636655 |
| Please regard this as authority to contact HM Revenue & Customs for confirmation of scheme status or related issues. | |